**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**17/05/2024**

---

**Teitl:** Sefyllfa alldro Refeniw a Chyfalaf y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2023/24.

**Awdur:** Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletya (Swyddog Cyllid Statudol)

Sian Pugh, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol yr Awdurdod Lletya

---

## 1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu sefyllfa alldro terfynol ar gyfer refeniw a chyfalaf yn 2023/24 i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

## 2. Y Penderfyniad a Geisir

**Gofynnir i'r Bwrdd nodi a derbyn:-**

**2.1 Adroddiad alldro refeniw y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2023/24 (Atodiad 1), sy'n cynnwys defnyddio £561,454 o Grant Bargen Twf Gogledd Cymru i ddangos sefyllfa niwtral ar gyfer y flwyddyn.**

**2.2 Sefyllfa cronfeydd y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 2)**

**2.3 Adolygiad Cyfalaf Diwedd Blwyddyn ar 31 Mawrth 2024 (Atodiad 3).**

## 3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad

3.1 Hysbysu'r Bwrdd Uchelgais am ei sefyllfa ariannol ar gyfer refeniw a chyfalaf yn 2023/24.

**4. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

4.1 Caiff y Bwrdd Uchelgais ei ystyried yn "gorff perthnasol mwy" yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd). Golyga hyn y bydd Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig yn cael ei gynhyrchu ar gyfer 2023/24 a'i gyflwyno i'r Bwrdd maes o law.

**<u>Refeniw</u>**

**5. Gwariant ac incwm yn 2023/24**

5.1 Mae Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad manwl o'r gwariant a'r incwm gwirioneddol fesul pennawd yn erbyn ei gyllideb yn 2023/24.

5.2 Y sefyllfa alldro net terfynol ar gyfer 2023/24 oedd tanwariant o £460,546, ac mae hyn wedi cynyddu o'r tanwariant o £340,768 a ragwelwyd yn yr adolygiad diwedd Rhagfyr 2023. Mae'r tanwariant yn 2023/24 yn deillio o lwyddiant y Swyddfa Rheoli Portffolio gyda'u cais rhanbarthol i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ogystal â gostyngiad mewn gwariant ar sawl un o benawdau'r gyllideb. Er mwyn gadael sefyllfa niwtral ar gyfer y flwyddyn, gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo swm gostyngedig o £561,454 (o'i gymharu â'r gyllideb wreiddiol o £1,022,000) o Grant y Fargen Dwf i'w ddefnyddio i ariannu'r gwariant refeniw yn 2023/24.

<u>Swyddfa Rheoli Portffolio</u>

5.3 Y tanwariant terfynol ar y pennawd hwn yw £75,151 ac mae'n bennaf oherwydd trosiant staff yn ystod y flwyddyn.

<u>Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol</u>

5.4 Y tanwariant terfynol ar y pennawd hwn yw £39,391 sy'n ganlyniad i ostyngiad yn y gwariant net ar bennawd gwasanaethau cefnogol y Corff Atebol (yr awdurdod lletya).

Cyd-bwyllgor

5.5 Y tanwariant terfynol ar y pennawd hwn yw £40,995, sy’n sgil tanwariant ar y penawdau Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol, y Ffioedd Cyllidol Allanol a'r Bwrdd Cyflawni Busnes.

Prosiectau

5.6 Y tanwariant terfynol ar y pennawd hwn yw £129,091 ac mae hyn yn sgil llithriad ar y rhaglen gyfalaf. Mae tanwariant ar bennawd datblygu achosion busnes y prosiectau a’r cefnogaeth caffael allanol ond bu galw mawr am gymorth cyfreithiol a chyllidol allanol ar y prosiectau.

Cynlluniau grantiau

5.7 Mae’r gwariant o dan y pennawd grantiau yn cynnwys cynlluniau Ynni Lleol a’r ymchwil bwyd amaeth sy’n cael eu hariannu gan grantiau Llywodraeth Cymru. Mae’r Cynlluniau Ynni Ardal Leol yn dangos fel tanwariant sylweddol yn 2023/24, ond mae hyn oherwydd bod £162k o’r gwariant wedi digwydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol.

Trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn

5.8 Mae'r rhan trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn yn dangos cyfraniadau llog y partneriaid ar gyfer 2023/24 (£251,040) ynghyd â'r llog ar y grant cyfalaf (£2,814,561) yn cael eu trosglwyddo i gronfa llog wrth gefn benodol i'w neilltuo i ariannu cost benthyca yn y dyfodol.

Cyfraniadau Ariannu

5.9 Mae'r prif ffrydiau incwm ar gyfer 2023/24 yn cynnwys cyfraniadau partneriaid, Grant ESF, dyraniad refeniw Grant Bargen Twf Gogledd Cymru, cyfraniad y CBC ar gyfer secondiad staff, grant Ynni Llywodraeth Cymru, Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG a’r gronfa wrth gefn.

5.10 Dyraniad gwreiddiol y grant Bargen Twf oedd £1,022,000, ond oherwydd y sefyllfa tanwariant net o £460,546 ar gyfer 2023/24, mae angen swm gostyngedig o £561,454

er mwyn gadael sefyllfa niwtral am y flwyddyn.  Er bod grant Bargen Twf Gogledd Cymru yn grant cyfalaf, mae'r Bwrdd wedi defnyddio'r un hyblygrwydd ag awdurdodau lleol yn y ffordd maent yn rheoli eu cyllid cyfalaf, gyda Cyngor Gwynedd yn dyrannu y grant Bargen Twf yn erbyn eu prosiectau cyfalaf gan ryddhau gwerth refeniw cyfatebol i'r Bwrdd Uchelgais i ariannu ei wariant refeniw.

Cronfeydd Wrth Gefn y Bwrdd Uchelgais

5.11 Mae Atodiad 2 yn dangos y symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn, a'r balansau ar 31 Mawrth 2024.

5.12 Cyfanswm balans y gronfa wrth gefn a glustnodwyd, ar 31 Mawrth 2024, oedd £277,927.  Cymeradwyodd y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth 2024 i £67,000 o'r gronfa yma gael ei ddefnyddio fel rhan o gyllideb 2024/25 ac i £61,000 pellach gael ei ddefnyddio yng nghyllideb 2025/26.

5.13 Balans y gronfa prosiectau ar 31 Mawrth 2024 oedd £152,300.

5.14 Balans y gronfa llog ar 31 Mawrth 2024 oedd £4,733,483, ac mae hwn wedi cynyddu'n sylweddol oherwydd y llog a dderbyniwyd ar y Grant Bargen Twf yn ystod y flwyddyn. Mae'r gronfa yma wedi ei neilltuo i ariannu costau benthyca yn y dyfodol.

**Cyfalaf**

5.15 Mae Atodiad 3 yn dangos adolygiad diwedd blwyddyn rhaglen Gyfalaf y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2023/24.  Mae hwn yn debyg i'r gyllideb Cyfalaf a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth,  a'r prif wahaniaeth yw'r dechreuad o'r prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter gyda gwariant o £0.75m yn 2023/24.  Mae'r gyllideb o 2.15% ar gyfer cyllido refeniw yn 2023/24 wedi gostwng i £0.56m i adlewyrchu y ffigyrau alldro refeniw terfynol.

**6. Goblygiadau Cyfreithiol**

6.1 Noda Adran 12 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 bod cyd-bwyllgor o ddau neu fwy o awdurdodau (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 y Ddeddf yn mynnu bod y cyrff hyn yn cynnal cyfrifon sy'n ddarostyngedig i archwiliad gan archwilydd allanol a gymeradwyir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

6.2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) yn mynnu bod yr holl Gyd-bwyllgorau yn paratoi cyfrifon diwedd blwyddyn. Lle mae'r incwm neu wariant blynyddol dros £2.5m, pennir bod y cyd-bwyllgor yn "gorff perthnasol mwy" a bydd angen paratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

**7. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd**

7.1 Cyflwynwyd Atodiad 1, Atodiad 2 ac Atodiad 3 ynghyd â chrynodeb o gynnwys yr adroddiad hwn, i'r Bwrdd Portffolio ar 3 Mai 2024.

**8. Atodiadau**

Atodiad 1 - Sefyllfa Alldro Refeniw Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2023/24.

Atodiad 2 - Cronfeydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Atodiad 3 – Sefyllfa Cyfalaf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2023/24.

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol - Corff Atebol:**

Awdur yr adroddiad hwn.